Health and Safety Executive

# Cyflwyniad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yng nghyswllt yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyflwyniad

1 Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr Ymchwiliad hwn ac yn edrych ymlaen at y gyfnod pan fydd mwy o eglurder a chydlynu ar rolau, cyfrifoldebau a phwerau'r holl gyrff a ddynodwyd fel rhai sy'n cael dylanwad ar ofalu am bobl hyn yng Nghymru.

2 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r rheoleiddiwr cenedlaethol annibynnol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain ac fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith Ac Ati 1974 (HSWA). Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gorff cyhoeddus anadrannol gyda statws y Goron, a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac mae'n atebol i'w gweinidogion. Nid yw Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r rolau a'r cyfrifoldebau a roddir i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru.

## Swyddogaethau a Rolau'r HSE fel y maent yn cael eu nodi yn HSWA

3 Mae HSWA yn nodi mai prif swyddogaeth yr HSE yw gwneud trefniadau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles pobl yn eu gwaith ac eraill, y cyhoedd er enghraifft, yn y modd y mae gweithrediadau yn cael eu cynnal. Mae'r swyddogaethau a dyletswyddau cysylltiedig y mae'r HSE yn eu cyflawni yn cynnwys:

- Cynnig a gosod y safonau angenrheidiol,
- Sicrhau cydymffurfiad â'r safonau hynny,
- Ymgymryd â ffurfiau eraill o weithgareddau a gynlluniwyd i ysgogi neu gefnogi camau angenrheidiol ar ran pobl a sefydliadau sy'n creu niwed posibl,
- Cyflwyno cynigion ar gyfer rheoliadau i'r Gweinidogion ar ôl ymgynghori â'r Adrannau addas o'r Llywodraeth a chyrff eraill,
- Trefnu ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion ymhlith eraill,
- Trefnu ar gyfer gweithredu gwasanaeth gwybodaeth a chynghori,
- Trefnu i ymchwil gael ei gynnal, cyhoeddi'r canlyniadau a darparu hyfforddiant a gwybodaeth yng nghyswllt y dibenion hyn,
- Cymeradwyo a chyhoeddi codau ymarfer gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ac yn amodol ar ymgynghori â'r Adrannau addas o'r Llywodraeth a chyrff eraill,
- Gwneud Cytundebau Asiantaeth a Memoranda Dealltwriaeth gydag Adrannau'r Llywodraeth ag eraill,
- Rhoi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol ar orfodi.

4 Mae pynciau rheoleiddiol yr HSE yn amrywio yn eang iawn o iechyd a diogelwch mewn sefydliadau niwclear a phyllau i ffatrïoedd, ffermydd, ffeiriau, ysbytai, cartrefi gofal ac ysgolion. Mae HSE hefyd yn rheoleiddio sefydliadau nwy ac olew sydd yn y môr, diogelwch y grid nwy, symud nwyddau a sylweddau peryglus (ar y ffordd yn bennaf), ac agweddau eraill ar ddiogelu gweithwyr a'r cyhoedd Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr holl sectorau a reoleiddir, eglurhaol yn unig yw hi.

## Pwerau dan HSWA

5 Mae pwerau'r arolygwyr yn cael eu pennu gan HSWA. Mae'r rhain yn eang ac yn cynnwys y pŵer i erlyn ac i gyhoeddi hysbysiadau gwella a gwahardd. Gellir cael

rhagor o wybodaeth am bolisi gorfodi'r HSE ac enghreifftiau o orfodi ar ein gwefan http://www.hse.gov.uk/enforce/index.htm

## Pwy sy'n gorfodi HSWA o ran lleoliadau gofal i bobl hyn yng Nghymru?

6 Mae HSWA a deddfwriaeth gysylltiedig yn cael eu gorfodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu gan yr Awdurdod Lleol perthnasol mewn gweithleoedd unigol yn ôl y prif weithgaredd sy'n cael ei gyflawni yno. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998 yn dyrannu cyfrifoldeb am ôrfodi iechyd a diogelwch rhwng HSE a'r Awdurdodau Lleol, gyda'r sefydliadau lle'r ystyrir bod y risg yn llai, siopau, swyddfeydd ac ati yn cael eu dyrannu i'r Awdurdodau Lleol.

7 Mae amrywiaeth o leoliadau gofal sy'n darparu gofal i bobl hyn yng Nghymru, mae'r rhain yn fras yn y categorïau, gofal ysbyty, gofal preswyl, gofal cartref nyrsio, gofal cofrestriad deuol a gofal yn y cartref.

8 Dylid nodi bod HSWA yr un mor berthnasol i leoliadau gofal sy'n eiddo preifat a'r rhai sy'n eiddo cyhoeddus yng Nghymru.

9 Wrth weithredu'r Rheoliadau Awdurdod Gorfodi ar gyfer pob un o'r lleoliadau yma rydym yn gweld y dyraniadau canlynol;

10 Mae lleoliadau gofal preswyl yn cael eu dyrannu i'r Awdurdod Lleol i'w gorfodi.

11 Mae gofal preswyl sydd ym meddiant yr Awdurdod Lleol, Cartrefi cofrestriad deuol a chartrefi Nyrsio yn cael eu dyrannu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r HSWA hefyd yn cael ei gorfodi gan yr HSE mewn Ysbytai.

12 Yn anffodus mae pennu statws gofal yn y cartref yn llai syml. Mae Adran 51 o HSWA yn benodol yn nodi nad yw'r HSWA yn berthnasol i unigolyn sy'n cyflogi unigolyn arall fel gwas neu forwyn yn y cartref ar aelwyd breifat. Yn draddodiadol mae 'gwasanaeth domestig' yn disgrifio gofal personol sylfaenol, gwasanaethau personol a thasgau eraill yn y cartref.

13 Yn ymarferol mae hyn yn golygu na fyddai unigolyn sy'n cyflogi gofalwr yn y cartref i helpu i ymolchi, gwisgo a bwydo ar amser bwyd yn gyflogwr dan HSWA gan y byddai'r gofal yn cael ei ddisgrifio fel 'gwasanaeth domestig'.

14 Ond pan fydd angen gofal arbenigol yna mae hyn yn mynd tu hwnt i ofal sylfaenol ac yna nid yw'r diffiniad o 'wasanaeth domestig' yn berthnasol. Yn ymarferol, eto, ni fyddai gofal sy'n gofyn am weithredu offer cynnal bywyd neu ofal lliniarol yn cael eu hystyried yn wasanaeth domestig. Mae'r diffiniad hwn wedi cael ei weithredu mor eang â hyfforddiant mewn technegau ymdrin â chlaf ac ymdrin â phroblemau ymddygiad.

15 Mae'r sefyllfa hon yn cael ei chymhlethu ymhellach gan bwy sy'n comisiynu'r gwasanaethau. Os bydd unigolyn yn gofyn am ofalwr arbenigol ac yn llunio contract cyflogaeth ag ef neu hi, yna ystyrir bod yr unigolyn yn gyflogwr ac mae HSWA yn berthnasol. Ond, os bydd yr unigolyn yn prynu gwasanaethau arbenigol trwy drydydd parti, asiantaeth ofal neu gan awdurdod lleol yna nid yw HSWA yn berthnasol i'r unigolyn, mae'n berthnasol i'r cyflogwr uniongyrchol, yr awdurdod lleol/asiantaeth ofal.

16 I'r diben hwn, rhaid i bob sefyllfa yn y cartref gael ei barnu ar ei nodweddion ei hun ac nid yw'n bosibl penderfynu ar sefyllfaoedd eang lle mae'n berthnasol/amherthnasol.

## Gweithio gyda Rheoleiddwyr eraill

17 Yng Nghymru mae'r HSE yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â'n cyd reoleiddwyr o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i arolygu, ymchwilio a phan fydd hynny'n angenrheidiol, cymryd camau gorfodi. Ar hyn o bryd nid oes gan HSE Cymru unrhyw gytundebau ffurfiol gyda AGIC na AGGCC. Mae'r HSE yn yr un sefyllfa gyda'r CQC yn Lloegr. Mae HSE yn cydnabod mai dim ond un elfen o'r cyfrifoldebau a roddir ar berchenogion a rheolwyr lleoliadau gofal yw iechyd a diogelwch. Ar y cyfan mae'r cyfrifoldebau rheoli am ddarparu gofal mewn lleoliadau gofal yn cael eu

rheoleiddio gan AGGCC. Haera'r HSE bod cyrff eraill sy'n rheoleiddio yn y sector gofal, â phwerau a deddfwriaeth mwy penodol na'r HSE ac felly maent mewn gwell sefyllfa i ymateb i ddigwyddiadau neu gwynion cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

18 Nid yw'r diffyg Memorandwm o Ddealltwriaeth/ Concordat yn golygu nad yw'r sefydliadau yn gallu gweithio'n adeiladol gyda'i gilydd ac nac ydynt yn gwneud hynny. Yn lleol mae sianeli cyfathrebu rhwng HSE, AGGCC a AGIC wedi eu sefydlu.

19 Pan fydd marwolaeth mewn lleoliad gofal sy'n deillio o weithgaredd gwaith, er enghraifft pan fydd defnyddiwr gwasanaeth wedi ei losgi wrth gael bath yna byddai'r rheoleiddiwr perthnasol (HSE neu'r ALl) yn cynnal ymchwiliad ar y cyd gyda'r Heddlu. Mae gan yr HSE, Awdurdodau Lleol Cymru a Heddluoedd Cymru (ymhlith eraill) Brotocol y maent wedi cytuno arno ar gyfer Cysylltu yng nghyswllt marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae'r protocol hwn ar gyfer cysylltu ar gael yn rhwydd i'w lawr lwytho oddi ar ein gwefan http://www.hse.gov.uk/pubns/wrdp1.pdf

20 Rhwng 2008 a 2010 fe wnaeth yr HSE a'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru redeg cyfres o ddyddiau Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch yn trafod Ymdrin â Chleifion â Dwylo, Diogelwch Rheiliau Gwely, Rheoli Legoinella, Rheoli Asbestos, Llithro a Baglu, Trais a Defnyddio Menig (yn trafod latex a dermatitis). Nod y cynllun oedd codi safonau iechyd a diogelwch mewn cartrefi preswyl a nyrsio ar draws Cymru.

21 Rhoddir prif ddarpariaethau'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith Ac Ati 1974 yn yr Atodiad i'r ddogfen hon. Yn gryno, mae Adran 2 yn nodi bod gan gyflogwyr gyfrifoldebau cyfreithiol i'w gweithwyr. Yn Adran 3 disgrifir dyletswydd cyflogwr i bobl eraill, er enghraifft defnyddwyr y gwasanaeth y gall eu gweithrediadau effeithio arnynt ac a all fod yn agored i risg o ganlyniad i hynny. Mae gan weithwyr ddyletswydd i roi gofal rhesymol i'w hiechyd a diogelwch hwy eu hunain ac eraill, a roddir yn Adran 7. Mae gan gyfarwyddwyr a rheolwyr 'fel y meddyliau sy'n rheoli' sefydliad hefyd ddyletswyddau penodol fel sy'n cael ei nodi yn Adran 37.

22 Mae gan yr HSE bolisi ar gyfer ymdrin â gorfodi Adran 3 HSWA mewn lleoliadau gofal. Yn gyffredinol, nid yw'r HSE yn ymchwilio i faterion o farn glinigol neu faterion sy'n ymwneud ag ansawdd y gofal. Mae'r HSE yn arwain ar iechyd a diogelwch gweithwyr a gall hefyd ymdrin â pheryglon heb fod yn rhai clinigol i gleifion fel baglu a syrthio, llosgi, diogelwch trydanol ac ati; a rhai agweddau ar risg sy'n berthnasol i'r staff a'r cleifion fel ei gilydd, fel ymdrin â dwylo.

23 Mae dyletswydd gyfreithiol i roi adroddiad am rai digwyddiadau dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR). Mae'r HSE yn dilyn ei feini prawf dewis digwyddiad cyhoeddedig wrth benderfynu a fyddant yn ymchwilio.

24 Yn ddiweddar mae'r HSE wedi adolygu'r cyfarwyddyd yn disgrifio gweithredu Adran 3. Mae'r cyfarwyddyd newydd hwn yn cynnwys 'enghreifftiau sefyllfaol' a ysgrifennwyd i hysbysu pryd y byddai digwyddiad yn tueddu tuag at ymchwiliad neu yn tueddu oddi wrth ymchwiliad. http://www.hse.gov.uk/enforce/hswact/priorities.htm

25 Mae'r wefan hefyd yn rhoi gwybodaeth am reoli'r risgiau i iechyd a gofal cymdeithasol a all effeithio ar weithwyr a defnyddwyr y gwasanaethau hyn.

26 Bydd o gymorth i'r rhai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch i reoli'r risgiau a rhoi'r newyddion diweddaraf yn gyson am faterion perthnasol. http://www.hse.gov.uk/healthservices/

27 Yn olaf, mae'r HSE yn barod i egluro unrhyw faterion sydd yn y cyflwyniad hwn neu ateb unrhyw gwestiynau y gall y Pwyllgor fod am eu codi am rolau a chyfrifoldebau'r HSE.

## Cwmpas a gweithrediad Adran 2 HSWA

Mae Adran 2 HSWA yn nodi'r dyletswyddau cyffredinol sydd gan gyflogwyr i'w gweithwyr. Datgan Adran 2 (1) mai dyletswydd pob cyflogwr yw sicrhau, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol o ymarferol, iechyd, diogelwch a lles ei holl weithwyr.

Mae Adran 2(2) yn rhestru'r materion penodol y mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymestyn iddynt:

- Darparu a chynnal a chadw offer a systemau gwaith sydd, cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol, yn ddiogel,
- Trefniadau ar gyfer sicrhau, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, diogelwch ac absenoldeb risgiau i iechyd yng nghyswllt defnyddio, trin, storio a chludo eitemau a sylweddau,
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth fel sy'n ofynnol i sicrhau, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, iechyd a diogelwch a lles y gweithwyr,
- Cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol o ran unrhyw weithle sydd dan reolaeth y cyflogwr, ei gadw mewn cyflwr sy'n ddiogel a heb risg i iechyd a darparu a chynnal a chadw modd o gael mynediad a mynd allan ohono sydd yn ddiogel a heb risgiau,
- Darparu a chynnal a chadw amgylchedd gwaith i'w weithwyr sydd, cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol, yn ddiogel, heb risgiau i iechyd ac yn ddigonol o ran cyfleusterau a threfniadau o ran eu lles yn y gwaith.

## Cwmpas a gweithrediad Adran 3 HSWA

Mae dibenion HSWA yn cynnwys diogelu pobl heblaw'r rhai sydd wrth eu gwaith rhag risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch yn deillio o weithgareddau pobl wrth eu gwaith neu yng nghyswllt hynny (Adran 1(1)(b) o HSWA).

Mae Adran 3 HSWA yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar gyflogwyr a'r hunan gyflogedig i gynnal eu gweithrediadau mewn modd fydd yn sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol, bod pobl ar wahân iddyn nhw eu hunain neu weithwyr eraill ddim yn agored i risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch.

Er mwyn i adran 3 fod yn berthnasol:

- Rhaid cael deiliad y ddyletswydd, naill ai cyflogwr neu unigolyn hunan gyflogedig, a
- Rhaid bod risg sylweddol, nid un fychan, i iechyd neu ddiogelwch unigolyn nad yw'n gweithio i ddeiliad y ddyletswydd neu'r deiliad dyletswydd hunan gyflogedig ei hun, a
- Rhaid i'r risg honno ddeillio o gynnal gweithrediadau deiliad y ddyletswydd. Mae 'gweithrediadau' yma yn golygu 'menter' neu 'fusnes'.

Nid yw adran 3 HSWA yn berthnasol i:

- Faterion lles (fel darparu toiledau neu gyfleusterau ymolchi),
- Materion yn ymwneud â niwsans neu amwynder nad oes iddynt oblygiadau iechyd a diogelwch (fel arogleuon annymunol yn deillio o weithgareddau gwaith),
- Gwaith o safon isel, lle gall safonau masnach neu rwymedi contractaidd fod yn bodoli, oni bai ei fod wedi cael effaith y gellir ei phrofi ar iechyd a diogelwch.

Cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 12/11